Sgrinio Cyn Geni Cymru
Antenatal Screening Wales

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Mae canlyniadau eich profion gwaed cyn geni yn dangos y gallech fod yn gludydd thalasaemia beta

## Cyflwyniad

Mae'r wybodaeth hon ar eich cyfer chi os ydych chi'n feichiog ac wedi cael prawf gwaed sy'n dangos y gallech chi fod yn gludydd **thalasaemia beta** (a elwir yn aml yn meddu ar ‘nodwedd' neu ‘trait’). Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth i chi am fod yn gludydd, a’r hyn y mae’n yn ei olygu i chi a'ch teulu.

Gan na all eich prawf sgrinio gadarnhau a ydych chi'n gludydd thalasaemia beta, rydym wedi ysgrifennu'r wybodaeth yn y daflen hon **fel pe baech chi'n gludydd thalasaemia beta** ac i'ch helpu i ddeall a fydd angen cymryd camau pellach yn ystod eich beichiogrwydd.

Pwyntiau allweddol

- Nid yw bod **yn gludydd posibl** o thalasaemia beta yn golygu eich bod yn sâl neu y byddwch yn datblygu salwch. Mae'r rhan fwyaf o gludyddion yn iach ac yn byw bywydau normal heb symptomau.
- Bydd tad biolegol eich baban yn cael ei wahodd i gael prawf.
- Mae llawer o bobl yn cario’r genyn thalasaemia beta, yn enwedig os ydyn nhw o Fôr y Canoldir, y Dwyrain Canol, De Asia, neu Dde-ddwyrain Asia. Mae'n gyffredin iawn ac nid yw'n anarferol.
- Mae rhagor o wybodaeth a chefnogaeth ar gael. Bydd eich bydwraig yn eich cefnogi trwy brofion dilynol ac yn eich helpu i ddeall y camau nesaf.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhannu gwybodaeth allweddol. Rhowch wybod i'ch bydwraig a oedd eich beichiogrwydd yn cynnwys sberm rhoddwr, wyau rhoddwr, neu fenthyg croth. Bydd hyn yn eu helpu i roi'r gofal cywir i chi.

## Sut mae canlyniad eich prawf wedi'i ysgrifennu

Mae canlyniad eich prawf wedi'i ysgrifennu fel: 'Canlyniadau'n gyson â chludydd thalasaemia beta posibl'.

## Beth mae canlyniad eich prawf gwaed yn ei olygu?

Haemoglobin yw'r sylwedd mewn celloedd gwaed coch sy'n cludo ocsigen o amgylch eich corff**.** Mae eich prawf gwaed diweddar wedi dangos bod eich celloedd gwaed coch yn llai nag arfer, neu fod eich celloedd gwaed coch o'r maint arferol a dangosodd profion pellach y gallech fod yn gludydd thalasaemia beta.

Mae gwybod y gallech fod yn gludydd thalasaemia beta yn golygu y gallech drosglwyddo'r genyn thalasaemia beta i'ch baban. Os yw tad biolegol eich baban hefyd yn gludydd, mae hynny'n golygu y gallech chi gyda'ch gilydd gael baban â chyflwr haemoglobin etifeddol.

Dywedwch wrth eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol os ydych chi:

- wedi beichiogi yn dilyn triniaeth ffrwythlondeb yn defnyddio sberm rhoddwr neu wy rhoddwr
- wedi cael trawsblaniad mêr esgyrn neu bôn-gelloedd; neu
- os ydych yn fam fenthyg

**Beth yw thalasaemia beta?**

Anhwylderau gwaed yw cyflyrau haemoglobin sy'n cael eu hetifeddu gan y ddau riant biolegol. Mae thalasaemia beta yn gyflwr etifeddol. Mae llawer o wahanol gyflyrau haemoglobin. Bydd y math o gyflwr y gallai eich baban ei etifeddu yn dibynnu ar ba fath o enynnau haemoglobin sydd gan y ddau riant biolegol. Fel arfer ni fydd cludyddion yn wynebu problemau ac ni fydd angen triniaeth arnynt. Mae rhai cyflyrau'n fwy difrifol nag eraill. Mae'n bwysig gwybod os yw tad biolegol eich baban hefyd yn gludydd, oherwydd gallai hyn gynyddu'r siawns y bydd eich baban yn etifeddu cyflwr mwy difrifol.

Gall eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol drafod hyn gyda chi, fel eich bod chi'n deall pa gyflwr y gallai eich baban ei etifeddu a sut y gallai hynny effeithio ar iechyd eich baban.

Mae cludydd thalasaemia beta yn etifeddu'r genyn beta globin arferol gan un rhiant a genyn beta globin wedi'i newid, sy'n cynhyrchu ychydig iawn o haemoglobin neu ddim haemoglobin o gwbl, gan y rhiant arall.

Mae llawer o bobl yn cario thalasaemia beta. Fe'i ceir fwyaf ymhlith pobl sy'n tarddu o'r ardaloedd canlynol:

- Môr y Canoldir (er enghraifft Gwlad Groeg, Twrci, Cyprus a'r Eidal)
- y Dwyrain Canol (er enghraifft Iran, Irac, Sawdi Arabia, Oman, Yemen)
- De Canol Asia (er enghraifft India, Pacistan, Bangladesh);
- De-ddwyrain Asia (er enghraifft Burma (a elwir hefyd yn Myanmar), Malaysia, Fietnam, Singapore, Gwlad Thai, Malaysia, Ynysoedd Philippines, Laos, Cambodia, Indonesia, Fietnam); neu'r
- Dwyrain Pell (er enghraifft Tsieina, Korea).

Gall hefyd ddigwydd ymhlith pob grŵp ethnig.

**Yr hyn sydd angen i chi ei wybod os ydych chi'n gludydd thalasaemia beta**


Ar hyn o bryd, nid ydym yn siŵr a ydych chi'n gludydd thalasaemia beta, ond rydym wedi ysgrifennu'r wybodaeth ganlynol **fel pe baech chi'n gludydd thalasaemia beta**.

- Os ydych chi'n cael prawf gwaed, dywedwch wrth eich meddyg y gallech fod yn gludydd thalasaemia beta gan y gellir ei gamddiagnosio fel diffyg haearn. Os ydyn nhw eisoes yn gwybod y gallech chi fod yn cario thalasaemia beta, gallant osgoi cynnig profion diangen i chi a rhagnodi meddyginiaeth haearn i chi.
- Dim ond os bydd prawf gwaed yn dangos bod gennych ddiffyg haearn y dylech gymryd meddyginiaeth haearn. Yn ystod beichiogrwydd byddwch yn cael eich profi am ddiffyg haearn.
- Rydych chi'n gallu rhoi gwaed (pan nad ydych chi'n feichiog) cyn belled nad ydych chi'n anemig (heb lefel is o haemoglobin nag arfer).
  Rhoi Gwaed // Gwasanaeth Gwaed Cymru (welsh-blood.org.uk)

**Sut fyddai fy maban yn etifeddu thalasaemia beta?**


**Mae un rhiant biolegol yn gludydd ac nid yw'r rhiant biolegol arall**

Os oes gan dad biolegol eich baban ddau enyn haemoglobin arferol (AA), mae siawns o 2 mewn 4 (50%) y bydd eich baban yn gludydd thalasaemia beta (fel chi) a siawns o 2 mewn 4 (50%) y bydd ganddo ddau enyn haemoglobin arferol (AA). Dangosir hyn yn y diagram isod. Mae'r siawns hon yr un fath ym mhob beichiogrwydd i'r cwpl hwn.



**Beth os yw'r ddau riant biolegol yn gludyddion?**
Os yw tad biolegol eich baban yn gludydd, mae siawns o 1 mewn 4 (25%) y bydd eich baban yn etifeddu cyflwr haemoglobin. Bydd difrifoldeb y cyflwr yn dibynnu ar ba enynnau haemoglobin sy'n cael eu hetifeddu

Mae siawns o 2 mewn 4 (50%) y bydd eich baban yn gludydd, a siawns o 1 mewn 4 (25%) y bydd gan eich baban enynnau haemoglobin arferol (AA). Dangosir hyn yn y diagram isod.




Os byddwch chi’n cael plentyn gyda phartner nad yw'n cario thalasaemia beta ond sy'n cludo genyn ar gyfer math arall o haemoglobin wedi'i newid, er enghraifft haemoglobin E, mae siawns o 1 mewn 4 (25%) y gallai eich plentyn etifeddu math arall o anhwylder haemoglobin. Mae rhai o'r anhwylderau hyn yn ysgafn ac mae rhai yn fwy difrifol. Bydd eich bydwraig neu gwnselydd genetig yn trafod hyn gyda chi.

**A ddylid cynnig profion i dad biolegol fy maban?**
Os oes gan dad biolegol eich baban enyn haemoglobin anarferol, mae'n bwysig nodi'r math o enyn a'r siawns y bydd eich baban yn etifeddu cyflwr haemoglobin. Am y rheswm hwn, byddwn hefyd yn gwahodd tad biolegol y baban i gael ei sgrinio. Dim ond os bydd yn cael prawf gwaed i gadarnhau'r math o haemoglobin sydd ganddo y bydd y tad yn gwybod a yw'n cario genyn ar gyfer haemoglobin anarferol.

https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/sgrinio/sgrinio-cyn-geni-cymru/adnoddau-gwybodaeth/taflenni/dogfennau-clefyd-y-crymangelloedd-a-thalasaemia/dogfennau-clefyd-y-crymangelloedd-a-thalasaemia-html/gwybodaeth-i-dadau-syn-cael-eu-gwahodd-i-gael-prawf-sgrinio-ar-g/

Os yw'r prawf yn dangos bod tad biolegol eich baban yn gludydd genyn haemoglobin anarferol, byddwch yn cael cynnig cwnsela arbenigol a diagnosis cyn geni.

**A ddylwn i ddweud wrth fy nheulu am y canlyniad?**
Efallai y bydd aelodau eraill o'r teulu, fel brodyr a chwiorydd, modrybedd, ewythrod a chefndryd eisiau ystyried cael eu profi gan y gallent hefyd fod yn gludyddion. Gallai rhannu'r wybodaeth hon gyda nhw fod o gymorth iddynt.

**Y camau nesaf a dewisiadau**
Gallwch chi hefyd wneud y canlynol:

- rhoi gwybod i'ch meddyg teulu neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol eich bod yn gludydd thalassaemia beta; a
- chysylltu â Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan (AWMGS) i gael gwybodaeth a chyngor am ddim i'ch helpu i ddeall goblygiadau bod yn gludydd thalasaemia beta.

**Rhagor o wybodaeth**
Gallwch gael rhagor o wybodaeth o'r canlynol.

GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Thalasaemia

© Hawlfraint 2025 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cedwir pob hawl. Ni chewch atgynhyrchu unrhyw ran o'r daflen hon heb ein caniatâd ni.

Fersiwn 5
Gorffennaf 2026